OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1285 (Cy. 324)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 76A(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**), a chan ystyried ei bod yn hwylus o ganlyniad i newidiadau yng ngwerth arian, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**):

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) (Cymru) 2021 a daw i rym ar 1 Ionawr 2022.

**Amrywio terfyn treuliau mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru**

**2.** Yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**3**) (uchafswm treuliau ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol ac eithrio etholiad o dan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999(**4**)), o flaen is-baragraff (ii) mewnosoder—

"(ic) at a local government election in Wales, £806 together with an additional 7p for every entry in the register of electors;".

(**1**) 1983 p. 2 ("Deddf 1983"); mewnosodwyd adran 76A gan adran 14 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) ac fe'i hamnewidiwyd gan adran 133(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1983, o ran Cymru, gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) Diwygiwyd adran 76(2)(b) gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51), gan Ran 1 o Atodlen 13 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), gan baragraffau 1 ac 20 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p. 29), gan baragraffau 1 a 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2), gan O.S. 2005/269, O.S. 2014/1870 ac O.S. 2020/1634.

(**4**) 1999 p. 29.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Tachwedd 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu uchafswm treuliau etholiad ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu chwyddiant ers i'r uchafswm gael ei amrywio ddiwethaf gan Orchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) 2014 (O.S. 2014/1870).

Mae uchafswm treuliau etholiad ymgeiswyr yn cynnwys swm penodedig (a fynegir mewn punnoedd) plws swm (a fynegir mewn ceiniogau) ar gyfer pob cofnod yn y gofrestr etholwyr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.